Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
—
Welsh Parliament
**Equality, Local Government and Communities Committee**

Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

14 Mai 2020

**Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

Annwyl Elin,

Diolch am eich llythyr ar 12 Mai yn gofyn am farn y Pwyllgor am yr amserlen ddiwygiedig a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnodau sy'n weddill o'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Trafododd y Pwyllgor yr amserlen ddiwygiedig yn ei gyfarfod heddiw, ac mae'r Aelodau'n fodlon ar y cynigion ar y cyfan. Fodd bynnag, mae nifer o faterion a allai effeithio ar y gallu i fodloni'r terfynau amser arfaethedig.

Sylwaf nad yw'r amserlen ddiwygiedig yn cynnwys unrhyw fanylion ynghylch pryd y gellir ailgychwyn cyflwyno'r gwelliannau, ac mae'r Aelodau'n gofyn i'r Pwyllgor Busnes roi rhagor o fanylion am hyn cyn gynted â phosibl. Yn ein barn ni, pe bai'r cyfnod cyflwyno yn ailgychwyn yn ystod wythnos olaf toriad yr haf, byddai hyn yn rhoi digon o amser i gyflwyno gwelliannau a'u trafod yn unol â'r terfyn amser arfaethedig ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2.

Er bod yr arfer o gynnal cyfarfodydd pwyllgor o bell wedi bod yn llwyddiannus, credwn efallai na fydd cynnal cyfarfodydd pwyllgor o bell yn briodol ar gyfer cynnal trafodion Cyfnod 2. Rhai meysydd clir a fyddai'n peri anhawster fyddai gwaredu gwelliannau, lle y byddai angen cynnal nifer o bleidleisiau drwy godi llaw. Hefyd, yn aml mae angen oedi cyfarfodydd Cyfnod 2 tra y gofynnir am gyngor cyfreithiol yn breifat ar welliannau penodol. Yn ogystal, gan ddibynnu ar nifer y gwelliannau a gyflwynwyd, efallai na fydd y slotiau cyfarfod yn y prynhawn bob pythefnos a ddyrennir i'r Pwyllgor yn rhoi digon o amser ar gyfer y gwaith hwn.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCymunedau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCommunities@senedd.wales
0300 200 6565

O ystyried yr uchod, er bod y Pwyllgor yn fodlon ar yr amserlen ddiwygiedig arfaethedig mewn egwyddor, gofynnwn i'r Pwyllgor Busnes drafod y mater hwn ymhellach rhag ofn y bydd yr argyfwng presennol yn parhau y tu hwnt i doriad yr haf.

Yn olaf, hoffwn nodi bod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau hanner ffordd drwy ei waith craffu Cyfnod 1 ar y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru). Er bod ein gwaith ar y Bil hwnnw wedi ei oedi ar hyn o bryd, nid yw'n eglur a fyddai'r amserlenni ar gyfer y ddau Fil yn gorgyffwrdd, pe bai’r gwaith craffu ar y Bil hwnnw'n ailgychwyn tua'r un pryd.

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.